



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Gweithgareddau Aml sgiliau yn y Brifysgol** – mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn cerdded lan i faes aml-dywydd y Brifysgol ar brynhawn ddydd Mawrth, Ebrill 25ain. Mi fydd angen dillad ac esgidiau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chot law. Mi fyddwn yn dychwelyd erbyn 3.30.

**Taith Blwyddyn 4 i Barc Natur Penglais** – hoffwn atgoffa disgyblion Blwyddyn 4 o'r daith i Barc Natur Penglais ar brynhawn ddydd Mawrth, Ebrill 25ain. Gweler y llythyr sydd wedi ei ddsbarthu gan yr athrawon dosbarth.

**Celf a Chrefft yr Urdd** – os ydych am gystadlu yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd eleni yna gofynnir yn garedig i chi gofrestru arlein [www.urdd.cymru/porth](http://www.urdd.cymru/porth) erbyn Mai 3ydd, gan uwchlytho lluniau hefyd. Yna dewch â'r cynnyrch i'r ysgol (at Mrs Buddug Davies Blwyddyn 3) ar ddydd Gwener, Mai 5ed.

**Pêl rwyd yr Urdd** – mae'r dyddiad ar gyfer y gystadleuaeth bêl-rwyd bellach wedi newid i ddydd Iau, Ebrill 27ain. Mi fydd angen i aelodau'r timau sy'n mynd lan i'r Brifysgol ddod â phecyn bwyd a dillad addas. Mi fydd y disgyblion yn cerdded lan i'r Brifysgol ac yn dychwelyd erbyn 3.30. Mi fyddwn yn trefnu gemau cyfeillgar i bawb sydd wedi bod yn yr ymarferion.

**Criced** – mi fydd holl ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn derbyn hyfforddiant criced yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Ebrill 28ain. Mi fydd angen dillad addas. Ni fydd unrhyw gostau.

**Ymarfer Côr Aberetwm** – mi fydd tua 10 o ddisgyblion o FI 6 yn rhan o'r ymarferion a'r perfformiad yn ystod yr wythnosau nesaf. Mi fydd yr ymarfer cyntaf yn Neuadd Llanfarian ar ddydd Gwener, Ebrill 28ain rhwng 10 a 2 o'r gloch. Mi fydd aelod o staff yr ysgol yn mynd gyda'r disgyblion ar y bws o'r ysgol ddydd Gwener. Cofiwch fod angen pecyn bwyd a digon o ddŵr. Mae'r ail ymarfer a'r perfformiad yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc, Mai 7fed ac 8fed. Ni fydd modd i staff yr ysgol fod yn bresennol yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc. Manylion cyswllt ar gyfer Dan Edwards Phillips, Rheolwr y Gwasanaeth Cerdd yw [Dan.Edwards-Phillips@ceredigion.gov.uk](mailto:Dan.Edwards-Phillips@ceredigion.gov.uk)

**ABC y Gerddorfa** – mi fydd gweithdy cerdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 yn yr ysgol ar brynhawn ddydd Mawrth, Mai 2il.

**Gweithdy Amgylcheddol Elin Crowley** – mi fydd gweithgareddau amgylcheddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 yn yr ysgol ar ddydd Mercher, Mai 3ydd.

**Eisteddfod yr Urdd** – dyma wybodaeth gyffredinol am drefniadau Eisteddfod yr Urdd eleni. **Mi fydd yr ysgol yn archebu ac yn talu am docynnau i'r cystadleuwyr.**

Diwrnod / Day	Cystadleuaeth / Competition	Amser cychwyn y gystadleuaeth / start time for the competition	Amser perfformio penodol ar gyfer ein hysgol ni / Specific performance time for our school
<b>Dydd Llun Mai 29ain / Monday, May 29th</b>			
	<b>Cân Actol / Action Song</b>	9.40 Pafiliwn Gwyrdd	<b>Amserau penodol i ddilyn / specific times to follow</b>
	<b>Cerddorfa / Orchestra</b>	11.55 Pafiliwn Gwyrdd	
<b>Dydd Mawrth, Mai 30ain / Tuesday, May 30th</b>			
	<b>Unawd Pres / Brass solo</b>	8.00 Pafiliwn Gwyn	<b>Amserau penodol i ddilyn / specific times to follow</b>
	<b>Grŵp Dawnsio Creadigol / Creative Dance Group</b>	9.55 Pafiliwn Gwyn	
	<b>Grŵp Dawnsio Amgyfrwng / Mixed Media Dance Group</b>	12.50 Pafiliwn Gwyn	
	<b>Unawd Llinynnol / String Solo</b>	14.45 Pafiliwn Coch	
	<b>Côr / Choir</b>	15.20 Pafiliwn Gwyrdd	

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams,  
Pennaeth, 24.04.2023



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Multi-skills Activities at the University** - Year 5 and 6 pupils will be walking up to the University's multi-weather pitch on the afternoon of Tuesday, April 25th. Pupils will need suitable clothes and shoes for sports activities and a raincoat. We will return by 3.30.

**Year 4 trip to Penglais Nature Park** - I would like to remind Year 4 pupils of the trip to Penglais Nature Park on the afternoon of Tuesday, April 25th. See the letter that has been distributed by the class teachers.

**Urdd Art and Craft** - if you want to compete in the Art and Craft section of the Urdd Eisteddfod this year then you are kindly asked to register online [www.urdd.cymru/porth](http://www.urdd.cymru/porth) and also upload photographs by May 3rd. Then bring the entries to school (to Mrs Buddug Davies Year 3) on Friday, May 5th.

**Urdd Netball** - the date for the netball competition has now changed to Thursday, April 27th. Team members will need to bring a packed lunch and suitable clothing. The pupils will walk up to the University and return by 3.30. We will arrange friendly games for all pupils who have been in the training sessions.

**Cricket** - all Year 5 and 6 pupils will receive cricket training at school on Friday, April 28th. Pupils will need suitable clothes. There will be no costs.

**Aberetwm Choir rehearsal** - around 10 pupils from Year 6 will be part of the rehearsals and the performance during the coming weeks. The first rehearsal will be in Llanfarian Hall on Friday, April 28th between 10 and 2 o'clock. A member of the school staff will accompany the pupils on the bus from school on Friday. Please remember that you will need a packed lunch and plenty of water. The second rehearsal and performance will be during the Bank Holiday weekend, May 7th and 8th. It will not be possible for school staff to be present during the Bank Holiday weekend. Contact details for Dan Edwards-Phillips, Music Service Manager is [Dan.Edwards-Phillips@ceredigion.gov.uk](mailto:Dan.Edwards-Phillips@ceredigion.gov.uk)

**ABC of the Orchestra** - there will be a music workshop for Year 5 pupils at the school on the afternoon of Tuesday, May 2nd.

**Elin Crowley Environmental Workshop** - there will be environmental activities for Year 3 pupils at the school on Wednesday, May 3rd.

Diwrnod / Day	Cystadleuaeth / Competition	Amser cychwyn y gystadleuaeth / start time for the competition	Amser perfformio penodol ar gyfer ein hysgol ni / Specific performance time for our school
<b>Dydd Llun Mai 29ain / Monday, May 29th</b>			
	<b>Cân Actol / Action Song</b>	9.40 Pafiliwn Gwyrdd	<b>Amserau penodol i ddilyn / specific times to follow</b>
	<b>Cerddorfa / Orchestra</b>	11.55 Pafiliwn Gwyrdd	
<b>Dydd Mawrth, Mai 30ain / Tuesday, May 30th</b>			
	<b>Unawd Pres / Brass solo</b>	8.00 Pafiliwn Gwyn	<b>Amserau penodol i ddilyn / specific times to follow</b>
	<b>Grŵp Dawnsio Creadigol / Creative Dance Group</b>	9.55 Pafiliwn Gwyn	
	<b>Grŵp Dawnsio Amlgyfrwng / Mixed Media Dance Group</b>	12.50 Pafiliwn Gwyn	
	<b>Unawd Llinynnol / String Solo</b>	14.45 Pafiliwn Coch	
	<b>Côr / Choir</b>	15.20 Pafiliwn Gwyrdd	

**If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher**  
24/04/2023